# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion (AC(2)-01-05)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 3 Chwefror 2005

### Amser y cyfarfod: 9.30am – 12.10pm

### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews (tan 12.00pm) | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Irene James (tan 11.45am) | Islwyn |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

#### Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli (os yw'n berthnasol)** | **Eitem(au) agenda** |
|---|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Stuart Marples | Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Canolbarth a Gorllewin Cymru, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 2 |

## Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Rob Powell | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ian Summers | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc (Dros Dro) y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod. Croesawodd Irene James AC i'w chyfarfod cyntaf fel aelod o'r Pwyllgor.

1.2 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Denise Idris-Jones a Catherine Thomas. Nid oedd unrhyw eilyddion. Nodwyd bod Syr John Bourn yng Nghynhadledd Archwilwyr Cyffredinol y Gymanwlad yn Auckland, Seland Newydd.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## Eitem 2: Amseroedd aros y GIG yng Nghymru

## Papur: AC(2)-01-05(p.1)

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ann Lloyd, Pennaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng

Nghymru, a Stuart Marples, Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Canolbarth a Gorllewin Cymru, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

2.2 Ceir cofnod gair-am-air o'r dystiolaeth yn Atodiad 1 i'r cofnodion hyn.

## Camau i'w cymryd

2.3 Cytunodd Ann Lloyd i ddarparu:

- rhagor o wybodaeth am anghenion iechyd Cymru o'u cymharu ag anghenion iechyd Gogledd-ddwyrain Lloegr.
- nodyn yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch y berthynas rhwng gwahanol lefelau Rheoli yn y GIG a'r ffordd y mae'n effeithio ar allu’r GIG i gasglu data am weithgareddau .
- nodyn ar ffurf canrannau o'r gyllideb a wariwyd fesul gweithgaredd, er enghraifft, cleifion allanol newydd, gweithgareddau dewisol ac ati.

2.4 Gofynnodd yr Aelodau i'r Ysgrifenyddiaeth drefnu cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor i barhau i gymryd tystiolaeth gan Ann Lloyd. Roeddynt am i'r cyfarfod gael ei drefnu cyn y cyfarfod nesaf a amserlenwyd ar 3 Mawrth.

## Eitem 3: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, Cyllid GIG Cymru 2004.

## Papurau: AC(2)-01-05(p.2) AC(2)-01-05(p.3)

3.1 Dywedodd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn pob argymhelliad yn llwyr.

3.2 Roedd yr Aelodau yn fodlon.

## Eitem 4: Papurau i'w nodi

- AC(2)-01-05(p.4) – Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ynghylch y camau a gymerwyd gan sefydliadau addysg bellach i gydymffurfio â deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd.

- AC(2)-01-05(p.5) – Gohebiaeth oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at Leighton Andrews AC ynghylch archwiliad gwerth am arian o sefydliadau addysg uwch.

4.1 Amlinellodd y Cadeirydd natur yr ohebiaeth â’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes gan nodi nad oedd sefydliadau addysg bellach wedi cymryd cymaint o gamau ag y byddai wedi dymuno i gydymffurfio â deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd. Dywedodd Alun Cairns nad oedd yn

dderbyniol aros cyhyd, gan fod y Ddeddf wedi bod mewn grym ers peth amser ac y gallai pobl sy'n agored i niwed fod ar eu colled.

4.2 Roedd Mark Isherwood am gofnodi'r ffaith fod Penaethiaid Colegau Addysg Bellach yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ond nad oedd modd iddynt weithredu fel y byddent yn dymuno. Nododd Gillian Body y darparwyd arian ychwanegol i helpu sefydliadau addysg bellach i wella’r sefyllfa; bod ELWa yn monitro effaith yr arian hwn ar y modd y mae sefdyliadau yn cydymffurfio â deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd ac y byddai, ar gais y Pwyllgor, yn darparu adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf i’r Pwyllgor cyn diwedd 2005. Cytunodd y Pwyllgor y byddai’n trafod y mater hwn eto ar ôl i ELWa ddarparu’r adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf yn y sefydliadau addysg bellach.

4.3 Dywedodd Leighton Andrew ei fod yn cytuno â barn yr Archwilydd Cyffredinol, a amlinellwyd yn yr ohebiaeth ag ef am werth am arian mewn sefydliadau addysg uwch, fod yr adroddiad gan Wasanaeth Archwilio ELWa ar yr uno seithug rhwng Prifysgol Morgannwg ac UWIC, yn ddigonol yn yr achos hwn. Dywedodd Mr Andrews ei fod yn fodlon ar hyn o bryd.

4.4 Nodwyd y papurau.

## Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod diwethaf

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2004.

Penderfynodd y Pwyllgor i allgáu’r cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.24 (vi).

## Sesiwn Breifat

## Eitem 6: Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor "Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio Rheoli Gwastraff"

## Papur: AC(2)-01-05(p.6)

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor ei adroddiad ar Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio Rheoli Gwastraff.

## Unrhyw Fater Arall

7.1 Gofynnodd Alun Cairns am i'r cyfarfod ychwanegol arfaethedig i barhau i graffu ar adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Amserau Aros y GIG yng Nghymru gael ei drefnu cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 3 Mawrth.

7.2 Gofynnodd Mick Bates am i'r nodyn ar y berthynas rhwng gwahanol lefelau rheoli'r GIG a'r

effeithiau ar gasglu data fod ar gael cyn y cyfarfod ychwanegol. Dywedodd y Clerc y byddai'n ceisio cael gafael arno mewn da bryd.